


## Yr Archesgob John Williams [John Iorc]



Ganwyd John Williams yng Nghonwy ym 1582, roedd ei dad yn fab i William Williams Cochwillan, ac ei fam yn ferch i William Griffith, Penrhyn.



Roedd yn fyfyrwr a enillodd radd MA, ac wedyn DD, yng Nghaergrawnt. Roedd yn Gaplan i'r Brenin yn 1617, ac erbyn 1621 apwyntiwyd ef yn Ganghellor Lloegr a Cheidwad y Sel. Roedd erbyn rwan yn Ddeon Salisbury, Deon San Steffan ac wedyn yn Esgob Lincoln. Pan ddaeth Siarl y Cyntaf yn Frenin, collodd ei swydd, a charcharwyd ef am dair blynedd, ond wedyn ennillodd barch y brenin unwaith yn rhagor ac ordeiniwyd ef yn Archesgob Efrog. Gyda chychwyn y Rhyfel Cartref yn 1642, amddiffynodd John Iorc gastell Conwy ar ran y brenin. Roedd ei helmed a'i sbardunnau ar un adeg wedi eu gosod wrth ymyl y gofgolofn. Bu farw ym Mawrth 1650 ar ddiwrnod ei benblwydd. Roedd rhai o'i gefnofwyr yn teimlo nad oedd Eglwys Llandygai'n ddigon mawreddog ar gyfer cawr o ddyn fel yr Archesgob John Williams.





Ymwelodd Jacques Coquerel o'r Bari, disgynydd uniongyrchol yr Archesgob, ag Eglwys Llandygai ym 2007.



### Ymweliad a Chochwillan - Catherine Blwyddyn 6



Bu plant Blynyddoedd 5 a 6 yn ymweld a Neuadd Cochwillan, sef cartref yr Archesgob John Williams sydd wedi ei gladdu yn Eglwys Llandygai. (Gweler Hanes - Sant Tegai)

Roedd hyn yn rhan o'u gwaith thema ar gyfnod y Stiwartiaid. Cafwyd cyflwyniad gwych gan Marilyn, perchennog presennol y tŷ, a oedd yn olrhain hanes y ty dros gyfnod o amser. (30/4/08)





Ar y tu blaen o'r tŷ, rydych yn weld y simdde fawr yn torsythu i fyny i'r awyr, sydd yn rhoi dipyn bach o gymeriad i'r tŷ .




Mae'r sgriniau anferth ar y ddwy ochr o'r neuadd yn edrych yn hardd efo'r cerfiadau yn eu haddurno nhw.



Mae'r tarianau ar y to yn dangos y pobl pwysig a fu'n aros yn y tŷ.

Mae Marilyn yn byw yn y tŷ efo'i ddwy chwaer. Dywedodd hi am hanes y tŷ.

Fel rydych yn ei weld, uwch ben y lle tan, mae yna ddarn o dderw. Dywedodd Marilyn mae'n debyg fod y derw yn fyw na 1000 oed. Erstalwm, roedd yna dan yno, ond rwan mae yna addurniadau a canwyllau, sydd yn edrych yn dda yn y tŷ.



## **Ble Mae John Iorc?**

### **Nofel Brenda Wyn Jones**

Mae'r nofel hon gan yr awdures o ddyffryn Ogwen yn trafod y Rhyfel Cartref yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg. Mae cysylltiad lleol agos rhwng y cymeriad a'r digwyddiadau gyda llawer o gyffyrddiadau diddorol ynglyn a bywyd y cyfnod. Fel y gwelsoch - mae cofeb John Iorc, sydd yn Eglwys Sant Tegai, yn y Lladin, a cheir sawl ymadroddiad Lladin yn y nofel.

Un o brif gymeriadau'r llyfr yw Rhys - roedd John Iorc yn arwr mawr iddo - mae'n derbyn addysg drwy law'r Archesgob yn Ysgol y Brodyr Duon (Friars).

Roedd Rhys yn gorfod copïo'r ymadroddion i'w lyfr!!!

cornix cornicatur - the crow cryeth

agnus balat - the lamb bleateth

lupus ululat - the wolf howleth

anser gingrit - the goose gaggleth

mus mintrit - the mouse chirpeth

anas tetrinnit - the duck quacketh